Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Cam-drin ar Sail Anrhydedd

# Canllawiau Amlasiantaeth Rhanbarthol



**Cadarnhawyd gan y Bwrdd**
**Ionawr 2026**

**Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad adolygu:**
**Ionawr 2029**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad t3

2. Diben t4

3. Diffiniadau a deddfwriaeth t4

4. Sut i adnabod Cam-drin ar Sail Anrhydedd

(arwyddion, dynodwyr, ac enghreifftiau) t5

5. Effaith Cam-drin ar Sail Anrhydedd t9

6. Ymateb i Gam-drin ar Sail Anrhydedd (pwysigrwydd ymateb ar unwaith) t9

7. Unigolion heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus t13

8. Cadw Cofnodion a Rhannu Gwybodaeth t15

9. Cyfeirio a chymorth i ddioddefwyr t16

10. Atodiad Un: Diffiniadau t22

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae 'Cam-drin ar Sail Anrhydedd' yn drosedd neu'n ddigwyddiad sydd wedi'i gyflawni neu a allai fod wedi'i gyflawni i amddiffyn anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned. Nid yw Cam-drin ar Sail Anrhydedd yn cwmpasu un drosedd benodol; mae'n gategori penodol o gam-drin domestig, mae'n digwydd yn gyffredinol mewn lleoliadau domestig a gall gynnwys ystod o ymddygiadau troseddol yn cael eu defnyddio yn erbyn unigolion, teuluoedd, neu grwpiau cymdeithasol eraill i reoli ac amddiffyn credoau ac anrhydedd diwylliannol/crefyddol canfyddedig.

1.2 Gallai Cam-drin ar Sail Anrhydedd (HBA) gynnwys llofruddiaeth, ofn priodas orfodol neu briodas orfodol wirioneddol, rheoli gweithgaredd rhywiol, trais a cham-drin domestig (gan gynnwys seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol), cam-drin plant, treisio, herwgipio, carcharu ar gam, ymosod, aflonyddu ac erthyliad gorfodol. Mae'r troseddau hyn yn torri ar draws pob diwylliant, cenedligrwydd, grŵp ffydd a chymuned ac yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol, a gallant effeithio ar blant ac oedolion fel ei gilydd. Mae Cam-drin ar Sail Anrhydedd yn groes i hawliau dynol ac nid oes unrhyw 'anrhydedd' mewn cyflawni'r troseddau. Mae'r troseddau'n bennaf yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod a merched, ond gall dynion a bechgyn fod yn ddioddefwyr hefyd.

1.3 Mae HBA yn aml yn gorgyffwrdd ag arferion niweidiol. Mae **arferion niweidiol** yn ffurfiau o gam-drin sydd yn aml wedi'u gwreiddio mewn traddodiad, arfer, diwylliant, neu systemau cred, ond sydd yn **anghyfreithlon**, **yn gamdriniol** ac yn gyfystyr â **thoriadau difrifol o hawliau dynol**. Fe'u defnyddir i reoli, cosbi, neu gyfyngu ar unigolyn y canfyddir eu bod wedi torri normau cymdeithasol, teuluol, neu gymunedol. Yn debyg i HBA, gall arferion niweidiol effeithio ar **oedolion a phlant**, ac maent yn effeithio'n bennaf ar **fenywod a merched**, er y gall dynion a bechgyn fod yn ddioddefwyr hefyd.

1.4 Nid yw arferion niweidiol yn gysylltiedig ag unrhyw grefydd neu ddiwylliant unigol ac maent yn digwydd ar draws cymunedau ledled y byd. Ni ddylid byth eu cyfiawnhau ar sail diwylliant, traddodiad, anrhydedd, neu gred. Yn y DU, mae arferion niweidiol yn cael eu cydnabod fel ffurfiau o **gam-drin domestig, cam-drin plant, a phryderon diogelu**, a gall **nifer o droseddwyr** fod yn gysylltiedig, gan gynnwys aelodau'r teulu a rhwydweithiau estynedig.

1.5 Mae'r eirfa yn Atodiad Un yn cynnwys enghreifftiau o fathau o HBA/arferion niweidiol ynghyd â diffiniadau.

## 2. Diben

2.1 Mae Bwrdd Diogelu Gwent a Thîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV) wedi cydweithio i gynhyrchu canllawiau i gefnogi ymarferwyr i ddeall, atal, ac ymateb i HBA. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'ch polisïau sefydliadol eich hun a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Ni ystyrir y canllawiau hyn yn ddogfen gynhwysfawr, a bydd unrhyw bryderon yn gofyn am ymateb wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau unigol. Gellir ceisio cyngor ac arweiniad gan Dîm Rhanbarthol VAWDASV, Heddlu Gwent, a darparwyr arbenigol, ac mae manylion cyswllt ar gael yn yr adran adnoddau isod.

2.2 Cydnabyddir y gall hwn fod yn faes gwaith cymhleth a heriol i ymarferwyr a gall fod yn anodd ei adnabod yn aml. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd isel o achosion a gofnodwyd o HBA yng Ngwent, er gwaethaf tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod HBA yn digwydd. Mae'r canllawiau'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau bod HBA yn cael ei adnabod, ei gofnodi, a bod ymateb priodol a chyson iddo ledled y rhanbarth.

## 3. Diffiniadau a Deddfwriaeth

3.3 Fel y soniwyd uchod, nid oes un drosedd o Gam-drin ar sail Anrhydedd a gall diffyg diffiniad cyson gyfrannu at heriau wrth nodi a chofnodi HBA.

3.4 Mae rhanbarth Gwent wedi cytuno i fabwysiadu'r diffiniad o Gam-drin ar sail Anrhydedd a ddefnyddir gan Wasanaeth Erlyn y Goron, fel y nodir isod.

> **"Digwyddiad neu drosedd sy'n cynnwys trais, bygythiadau o drais, dychryn, gorfodaeth, neu gam-drin (gan gynnwys cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) sydd wedi'i gyflawni neu a allai fod wedi'i gyflawni i amddiffyn anrhydedd unigolyn, teulu a/neu gymuned oherwydd honiadau neu ganfyddiadau o dorri cod ymddygiad y teulu a/neu'r gymuned."**

3.5 Er nad oes un darn o ddeddfwriaeth yn llywodraethu HBA, bydd yr ymateb yn cael ei lywio gan ddarnau perthnasol eraill o ddeddfwriaeth, megis:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Plant 1989
- Deddf Troseddau Rhyw 2003
- Deddf Cam-drin Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004
- Deddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn sifil) 2007
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd 2003
- Deddf Troseddau Difrifol 2015

3.6 Dylid cyfeirio hefyd at Weithdrefnau Diogelu Cymru:

- Diogelu Cymru (plant)
- Diogelu Cymru (oedolion)

## 4. Sut i Adnabod Cam-drin ar Sail Anrhydedd: Arwyddion Posib, Dynodwyr ac Enghreifftiau

4.1 Mae HBA yn ffenomen ddiwylliannol, nid crefyddol. Mae'n effeithio ar ystod o gymunedau. Mae'r heriau i wasanaethau yn cynnwys datblygu ymatebion sy'n cadw pobl yn ddiogel ac yn dwyn troseddwyr i gyfrif heb stereoteipio, stigmateiddio na gwneud rhagdybiaethau am unrhyw unigolyn neu gymuned benodol.

4.2 Er mwyn adnabod pryd y gallai unigolyn fod mewn perygl o HBA, neu bryd y gallai HBA fod yn digwydd, mae'n bwysig deall rhai o'r rhesymau pam y gallai gael ei gyflawni, yn erbyn oedolion a phlant/pobl ifanc fel ei gilydd. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Amddiffyn 'anrhydedd' y teulu neu 'Izzat', gair Wrdw sy'n golygu amddiffyn anrhydedd neu enw da'r teulu;
- Rheoli ymddygiad a rhywioldeb annymunol (gan gynnwys anlladrwydd canfyddedig neu fod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol);
- Fel ymateb i bwysau teuluol, cymunedol neu grŵp cynghreiriaid;

- Cryfhau cysylltiadau teuluol;
- amddiffyn delfrydau diwylliannol a/neu grefyddol (camsyniol neu wedi dyddio);
- Cadw cyfoeth, eiddo neu dir o fewn y teulu;
- Cynorthwyo hawliadau am breswyl a dinasyddiaeth yn y DU;
- Ymateb i ymddygiad anfoesol canfyddedig, a allai gynnwys: -
    - Colur neu wisg amhriodol;
    - Meddu ar neu ddefnyddio ffôn symudol;
    - Cusanu neu ddangos mathau eraill o agosatrwydd yn gyhoeddus;
    - Gwrthod priodas dan orfod;
    - Dioddef trais neu ymosodiad rhywiol difrifol arall;
    - Perthnasau rhyng-ffydd;
    - Ceisio ysgariad;
    - Herio awdurdod rhieni;
    - Defnyddio alcohol, cyffuriau, neu sigaréts;
    - Perthnasau rhywiol neu feichiogrwydd y tu allan i briodas;
    - Bod yn 'orllewinol' o ran steil dillad, colur, ymddygiad ac agweddau;
    - Bod â dyhead gyrfa;
    - Clecs – gall anrhydedd teuluol gael ei niweidio gan sibrydion a chlecs nad ydynt yn wir ond y credir eu bod yn wir gan aelodau eraill o'r gymuned.

4.2 Gall HBA gynnwys ystod o ymddygiadau a gall gwmpasu ffurfiau amrywiol o gam-drin yn erbyn oedolion a phlant/pobl ifanc fel ei gilydd, gan gynnwys cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin emosiynol, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin ariannol, ac esgeulustod. Weithiau gall HBA diweddu mewn llofruddiaeth, a bydd hyn yn aml yn anterth digwyddiadau sy'n digwydd dros gyfnod o amser a gallai fod wedi'i gynllunio. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond gallai rhai ymddygiadau a all arwain at ladd yn enw anrhydedd gynnwys:

- **Bygythiadau i ladd;**
- **Gwrthod mynediad i oedolion/plant;**
- **Pwysau i fynd dramor (weithiau caiff dioddefwtr eu perswadio i ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol o dan esgusodion ffug, pan mewn gwirionedd gallai'r bwriad fod i'w lladd);**
- **Anffurfio organau cenhedlu benywod**
- **Arestiad tŷ a/neu gyfyngiadau gormodol ar symud/teithio a gweithgareddau eraill;**
- **Gwrthod mynediad i'r ffôn, y rhyngrwyd, pasbort a ffrindiau.**
- **Tynnu/gwrthod mynediad i rwydweithiau cymorth (gwasanaethau, ynysu oddi wrth deulu/ffrindiau)**
- **Ymosodiadau asid**

4.3 Gall unigolyn sydd mewn perygl o, neu'n profi HBA, arddangos neu brofi ystod eang o ymddygiadau sy'n dynodi cam-drin neu esgeulustod. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r dynodwyr posib a allai awgrymu bod unigolyn mewn perygl o, neu'n profi, HBA. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mynd ar goll (o'r cartref a'r ysgol) mewn ymgais i gadw eu hunain yn ddiogel;
- Cael eu cyfyngu o ran eu symudiadau a chael eu goruchwylio'n ormodol;
- Diffyg mynediad i'r rhyngrwyd, ffonau symudol, a'u pasbort neu aelodau'r teulu;
- Priodas dan orfod neu gael eu gorfodi i fyw yn rhywle arall (i gael rhagor o wybodaeth am Briodas dan Orfod, gweler Understanding Forced Marriage: A Critical Analysis;
- Cael eu tynnu'n ôl o addysg gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu geisiadau am absenoldeb estynedig;
- Rheolaeth ariannol afresymol, er enghraifft cymryd cyflog/incwm;
- Dirywiad mewn iechyd meddwl, gan gynnwys hunan-niweidio a/neu syniadau hunanladdol;
- Tynnu'n ôl o rwydweithiau cymorth, boed yn broffesiynol neu'n anffurfiol (ffrindiau/teulu).

4.4 Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a rhaid asesu pob achos unigol yn gyfannol ac o fewn cyd-destun yr unigolyn a'u profiadau byw.

4.5 Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn darparu enghreifftiau i ddynodwyr a allai awgrymu fod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o HBA, yn enwedig priodas dan orfod. Eto, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond dylai ymarferwyr ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol os yw un neu fwy o'r dynodwyr hyn yn bresennol.

#### ADDYSG

- Absenoldeb neu ddiflaniad sydyn
- Cais am absenoldeb estynedig a methu â dychwelyd o ymweliadau â'u gwlad wreiddiol
- Ofn ynghylch gwyliau ysgol sydd ar ddod
- Gwyliadwriaeth gan frodyr a chwioryddd neu gefndryd yn yr ysgol
- Dirywiad mewn ymddygiad, ymgysylltiad, perfformiad neu brydlondeb
- Cael eu tynnu allan o'r ysgol gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant
- Dim caniatâd i fynychu gweithgareddau allgyrsiol
- Cyhoeddiad sydyn o ddyweddiad
- Cael eu hatal rhag mynd ymlaen i addysg bellach/uwch

#### HANES TEULUOL

- Brodyr a chwiorydd wedi'u gorfodi i briodi
- Brodyr a chwiorydd wedi priodi'n gynnar
- Brodyr a chwiorydd wedi hunan-niweidio neu hunanladd
- Marwolaeth rhiant
- Anghydfodau teuluol
- Rhedeg i ffwrdd o gartref
- Cyfyngiadau afresymol e.e. cadw

#### YMWNEUD Â'R HEDDLU

- Y dioddefwr neu frodyr a chwiorydd o fewn y teulu yn cael eu hadrodd ar goll
- Adroddiadau o gam-drin domestig, aflonyddu neu dorri'r heddwch yng nghartref y teulu
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Y dioddefwr yn cael ei riportio am droseddau e.e. dwyn o siopau neu gamddefnyddio sylweddau
- Bygythiadau i ladd ac ymdrechion i ladd neu niweidio
- Adroddiadau o droseddau eraill megis treisio neu herwgipio
- Ymosodiadau asid

#### IECHYD

- Rhywun yn mynd gyda nhw i'r meddyg neu glinigau
- Hunan-niweidio
- Ymgais i gyflawni hunanladdiad
- Anhwylderau bwyta
- Iselder
- Ynysu
- Camddefnyddio sylweddau
- Beichiogrwydd cynnar/digroeso
- Anffurfio organau cenhedlu benywod

4.6 Mae Karma Nirvana yn elusen arbenigol sydd wedi ymrwymo i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr HBA. Maen nhw wedi cynhyrchu pecyn cymorth a chanllawiau ategol a all gefnogi ymarferwyr i adnabod HBA ac mae'n cynnwys arweiniad ynghylch cwestiynau archwiliadol a all cefnogi chwilfrydedd proffesiynol ac asesiad. Mae'r offer a'r canllawiau ar gael yma: Karma Nirvana's HBA Identification Tool – Karma Nirvana.

4.7 Mae BAWSO hefyd yn cynnig cymorth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr HBA yng Ngwent a Chymru. Mae gwybodaeth bellach ar gael yma. Bawso | Supporting ethnic minorities affected by violence and exploitation

## 5 Effaith Cam-drin ar Sail Anrhydedd

5.1 Mae Cam-drin ar Sail Anrhydedd yn fath penodol iawn o gam-drin domestig a gall gael effaith sylweddol a hirhoedlog ar ddioddefwyr a goroeswyr. Fodd bynnag, mae troseddau anrhydedd yn wahanol iawn i fathau eraill o gam-drin domestig; tra bod digwyddiadau nodweddiadol o gam-drin domestig yn cynnwys troseddwyr yn defnyddio grym yn erbyn eu partneriaid, mae cam-drin ar sail anrhydedd yn rheolaidd yn cynnwys rhieni, meibion, brodyr a chwiorydd y dioddefwr, yn ogystal ag aelodau o'i deulu estynedig a theulu-yng-nghyfraith a'r gymuned ehangach. Mae HBA yn aml yn cynnwys sawl troseddwr, ac mae'r cam-drin fel arfer yn cael ei gyflawni gyda rhywfaint o gymeradwyaeth a/neu gydgynllwynio gydag aelodau'r teulu neu'r gymuned ehangach. Felly, rhaid i ymarferwyr fod yn ymwybodol o hyn yn eu hymatebion lle mae amheuaeth o HBA (gweler adran 6 isod). I'r gwrthwyneb, dylai ymarferwyr fod yn ofalus a pheidio â thybio bod pob achos o Gam-drin Domestig o fewn cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn gysylltiedig â HBA.

5.2 Yn aml, bydd y rhai sy'n profi HBA yn cael eu hynysu oddi wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau ac ni fyddant yn cael mynediad at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Gall perthnasau ystyried bod oedolion/plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu treisio yn gyfrifol am hyn; gall aelod(au) o'r teulu eu cam-drin neu eu lladd o ganlyniad, a gall hyn olygu nad yw dioddefwyr treisio a/neu ymosodiad rhywiol yn debygol o ddatgelu gwybodaeth na cheisio cefnogaeth. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd iawn adnabod a chefnogi'r rhai sydd mewn perygl, ac mae hefyd yn cynyddu risg pryderon iechyd meddwl, gan gynnwys y risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae hefyd yn bwysig bod ymarferwyr yn cydnabod y gallai'r rhai sy'n profi HBA fod wedi cael eu harwain i gredu nad yw anawsterau iechyd meddwl neu deimladau o iselder yn ddilys, ac felly gallai fod yn anodd iddynt gydnabod yr effaith, eto gan ei gwneud hi'n anos iddynt geisio cymorth yn hyn o beth.

5.3 Gall teuloedd deimlo cywilydd yn hir ar ôl y digwyddiad a achosodd dianrhydedd. Felly, gall y risg o niwed i oedolyn neu berson ifanc barhau am beth amser. Gall hyn olygu y gallai cariad newydd, babi (os yw beichiogrwydd wedi achosi i'r teulu deimlo 'cywilydd'), un o'u cydnabod neu frodyr a chwiorydd fod mewn perygl o niwed hefyd. Felly gall effaith HBA fod yn eang ei chwmpas ac yn hirhoedlog.

## 6 Ymateb i Gam-drin ar Sail Anrhydedd

6.1 Mae Cam-drin ar Sail Anrhydedd yn fath penodol iawn o gam-drin domestig ac mae'n gofyn am ymateb wedi'i deilwra wedi'i lywio gan drawma i sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl o fewn eu cymunedau. Mae angen i bob ymarferydd sy'n gweithio gyda dioddefwyr HBA, yn enwedig pan fydd yn gysylltiedig â Phriodas dan Orfod, fod yn ymwybodol o'r rheol "**un cyfle**". Hynny

yw, efallai mai dim ond un cyfle fydd ganddynt i siarad â dioddefwyr posib ac felly efallai mai dim ond un cyfle fydd ganddynt i atal niwed neu achub bywyd.

**Ymateb ar Unwaith**

**6.2 Os ydych chi'n pryderu bod oedolyn, plentyn, neu berson ifanc mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd, mae'n hanfodol eich bod chi'n cydnabod difrifoldeb ac uniongyrchedd y risg o niwed, ac yn gweithredu ar unwaith. Os ydych chi'n pryderu bod risg uniongyrchol o niwed sylweddol, dylech gysylltu â'r Heddlu ar 999 a gofyn am ymateb ar unwaith. Peidiwch â chysylltu ag aelodau'r teulu gan y gallai hyn gynyddu'r risg i'r oedolyn, plentyn, neu berson ifanc.**

**6.3** Weithiau caiff dioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd eu perswadio, eu bygwth, neu eu gorfodi, i ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol o dan esgusodion ffug, pan allai'r bwriad mewn gwirionedd fod i'w lladd. Os credir bod oedolyn neu berson ifanc wedi cael ei gludo dramor, neu mewn perygl o gael ei gludo dramor, **cysylltwch â'r Heddlu drwy 999 fel y gellir ymateb ar unwaith**.

**Cyflwyno Dyletswydd i Adrodd**

6.4 Fel uchod, os oes risg enbyd o niwed neu os credir bod trosedd ar waith, dylid cysylltu â'r heddlu drwy 999.

6.5 Dylai gwybodaeth neu bryder bod oedolyn, plentyn, neu berson ifanc mewn perygl o ddioddef, neu eisoes wedi dioddef, HBA arwain at gyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar unwaith i Wasanaethau Oedolion neu Blant. Os bydd pryderon uniongyrchol, gellir cyflwyno'r Ddyletswydd i Adrodd dros y ffôn a'i dilyn yn ysgrifenedig o fewn 24 awr, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gweler y dolenni hyn am fanylion ar gyflwyno Dyletswydd i Adrodd i Wasanaethau Oedolion a Phlant yn rhanbarth Gwent.

Adrodd am oedolyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent

Adrodd am blentyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent

6.6 Dylid ystyried yr angen am atgyfeiriad Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) hefyd lle bo'n briodol, er enghraifft lle nad oes gan oedolyn anghenion gofal a chymorth a/neu broblemau capasiti wedi'u nodi ac efallai nad yw'n bodloni'r meini prawf oedolyn mewn perygl. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch MARAC, gweler yma ganllawiau a chwblhau MARAC Gwent.

**Dull Aml-asiantaeth**

6.7 Ar ôl derbyn y Ddyletswydd i Adrodd, mae angen i Dimau Diogelu Oedolion a/neu Ddyletswydd Plant ystyried cynnull Cyfarfod/Trafodaeth Strategaeth. Dylai hyn gynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu a Gwasanaethau Oedolion neu Blant, ac unrhyw bartneriaid allweddol eraill er enghraifft Iechyd, Addysg, Tai, neu asiantaethau gwirfoddol/trydydd sector sydd ag arbenigedd arbenigol (e.e. cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, cam-drin ar sail anrhydedd). Dylid ystyried hefyd wahodd cynghorydd cyfreithiol.

6.8 Dylai cynllunio amlasiantaethol ystyried yr angen i ddarparu llety diogel addas i'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc, fel sy'n briodol. Gall awdurdodau lleol wneud cais i'r llysoedd am amrywiol orchmynion, i amddiffyn oedolyn, plentyn neu berson ifanc sydd mewn perygl o HBA. Mewn sefyllfaoedd brys, dylid ystyried hefyd ddefnyddio Amddiffyniad yr Heddlu. Fodd bynnag, mae'r rhain yn darfod ar ôl 72 awr, felly byddai'n rhaid ystyried darpariaethau pellach ar ôl yr amser hwn.

6.9 Dylid ystyried hefyd ble y dylid cynnull MARAC (gweler 6.6 uchod)

6.10 Dylai'r Cyfarfod/Trafodaeth strategaeth hefyd ystyried diogelwch gwybodaeth a sut y bydd gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rheoli, o ystyried sensitifrwydd a goblygiadau risg rhannu gwybodaeth yn amhriodol.

Dylai oedolion sy'n dychwelyd at eu teuluoedd gael cynnig cefnogaeth gan gynnwys cynlluniau dianc, y cyfle i adneuo eu DNA, ffotograff ac olion bysedd gyda'r heddlu.

6.12 Dylai'r heddlu arwain ar ymholiad troseddol os yw'n briodol.

**Ystyriaethau Penodol**

6.13 Mae'n cymryd llawer o ddewrder i oedolyn, plentyn neu berson ifanc roi gwybod i asiantaeth eu bod yn ofni y byddant, neu eu bod wedi bod, yn destun HBA. Mae'n hanfodol, felly, eich bod yn gweithredu mewn modd na fydd yn peryglu diogelwch yr oedolyn, y plentyn neu'r person ifanc ymhellach. Mae'n hanfodol eich bod yn glynu wrth y pwyntiau canlynol er diogelwch yr oedolyn, y plentyn neu'r person ifanc:□□□□□

## PEIDIWCH

- **Ni ddylai'r asiantaeth ganiatáu i deulu neu rwydwaith cymdeithasol yr Oedolyn ddarganfod am y datgeliad o dan unrhyw amgylchiadau, er mwyn pedio â rhoi'r Oedolyn mewn perygl pellach o niwed.**
- **Ni ddylech siarad â'r dioddefwyr ym mhresenoldeb eu perthnasau o dan unrhyw amgylchiadau.**
  **Ni ddylech fynd at y teulu neu arweinwyr cymunedol, rhannu unrhyw wybodaeth â nhw neu geisio unrhyw fath o gyfryngu o dan unrhyw amgylchiadau.**
- **Yn benodol NI DDYLID defnyddio aelodau'r gymuned leol fel cyfieithwyr ar y pryd.**
- **Ni ddylid anfon yr oedolyn, plentyn, neu berson ifanc adref yn groes i'w dymuniadau.**

## COFIWCH

- Gymryd y datgeliad o ddifrif;
- Gweld yr oedolyn, plentyn neu berson ifanc ar unwaith, ar ei ben ei hun os yw'n bosib, ac mewn man diogel a phreifat.
- Egluro cyfyngiadau cyfrinachedd i'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc, pa wybodaeth y gallai fod angen ei rhannu, gyda phwy, ac at ba ddiben;
- Gofyn cwestiynau uniongyrchol i gasglu diogn o wybodaeth i atgyfeirio i Wasanaethau Oedolion/Plant a'r Heddlu, gan gynnwys cofnodi dymuniadau'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc;
- Cytuno ar ffordd gynnilo gysylltu â'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc yn y dyfodol;
- Egluro y byddwch yn atgyfeirio at Wasanaethau Oedolion/Plant a Heddlu Gwent.

6.14 Gall cyfryngu, cymrodeddu, cysoni a chwnsela teuluol mewn ymateb i Gam-drin ar Sail Anrhydedd fod yn hynod beryglus a gall gynyddu bregusrwydd yr oedolyn, plentyn neu berson ifanc a'u rhoi mewn perygl. Mae angen asesu unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth â'u teulu yn ofalus gan y gall roi'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gam-drin emosiynol pellach neu arwain at bwysau yn cael ei roi arnynt i ddychwelyd adref. Fodd bynnag, os yw'r oedolyn, plentyn, neu berson ifanc yn dymuno mynd adref neu siarad â'u teulu, dylid egluro'r holl risgiau a rhoi cynllun diogelwch ar waith.

6.15 Gall cyfryngu fel ymateb i Gam-drin yn Seiliedig ar Anrhydedd a Phriodas Dan Orfod fod yn hynod beryglus. Mae achosion o ddioddefwyr yn cael eu llofruddio gan eu teuluoedd wedi bod yn ystod cyfryngu. Gall cyfryngu hefyd roi rhywun mewn perygl o gam-drin emosiynol a chorfforol pellach.

6.16Peidiwch â defnyddio aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion na'r rhai sydd â dylanwad yn y gymuned fel cyfieithwyr ar y pryd; gall dioddefwyr deimlo'n chwithig wrth drafod materion personol o'u blaenau a gall gwybodaeth sensitif gael ei throsglwyddo i eraill a rhoi'r dioddefwr mewn perygl. Ar ben hynny, gall cyfieithydd ar y pryd o'r fath gamarwain ymarferwyr yn fwriadol a/neu annog y person i ollwng y gŵyn ac ildio i ddymuniadau eu teulu. Dylai ymarferwyr ymgynghori â pholisïau a gweithdrefnau mewnol sy'n ymwneud â defnyddio cyfieithwyr ar y pryd a bod yn ymwybodol o'r risgiau posib. Dylai ymarferwyr hefyd fod yn ymwybodol y gallai iaith fod yn rhwystr i ddatgelu ac ymgysylltu, a dylid teilwra dulliau i sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu.

6.17 Mewn rhai achosion, gall unigolion megis aelodau'r teulu/ffrindiau/cymdogion neu droseddwyr y HBA gysylltu â'r Heddlu i adrodd bod yr unigolyn ar goll, neu i holi ble mae. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig mabwysiadu dull cyson a chynghori, fel gwasanaeth, nad ydych yn gwneud sylwadau ar unigolion/achosion, yn hytrach na chadarnhau neu wadu cyfranogiad.

## 7. Unigolion heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus

7.1 Gall unigolion heb hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF) gael eu heffeithio'n anghymesur gan gam-drin ar Sail Anrhydedd ac arferion niweidiol, gan y gall troseddwyr ddefnyddio eu statws mewnfudo fel offeryn gorfodi a rheoli. Gall ofn digartrefedd, amddifadedd, cadw neu gael eu symud o'r DU atal dioddefwyr rhag ceisio cymorth neu adael sefyllfaoedd camdriniol, yn enwedig lle mae mynediad at dai, budd-daliadau lles a llety lloches yn gyfyngedig. Gall troseddwyr neu aelodau o'r teulu fanteisio ar y bregusrwydd hwn trwy fygwth tynnu cefnogaeth ariannol yn ôl, riportio'r unigolyn i awdurdodau mewnfudo, neu atal dogfennau adnabod, gan ynysu'r dioddefwr ymhellach a chynyddu'r risg. Rhaid i ymarferwyr gydnabod NRPF fel bregusrwydd diogelu ychwanegol

a sicrhau bod ymatebion yn blaenoriaethu diogelwch, hawliau cyfreithlon, a mynediad at gyngor arbenigol, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac ymarfer sydd wedi'i lywio gan drawma.-

7.2 Pan na all oedolyn sy'n goroesi VAWDASV gael mynediad at fudd-daliadau a chymorth tai oherwydd NRPF, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i asesu – gweler adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – a oes ganddo/ganddi anghenion gofal a chymorth, ac os felly, beth yw'r anghenion hynny. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i oedolion sengl yn ogystal â theuluoedd. Dylid darparu canlyniad yr asesiad hwn i'r person yn ysgrifenedig gyda rhesymau.□□□□□

7.3 Wrth gynnal yr asesiad anghenion rhaid i awdurdod lleol:

1. geisio nodi'r canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu cyflawni ym mywyd o ddydd i ddydd
2. asesu a allai'r ddarpariaeth gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu wybodaeth, cyngor neu gymorth, gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny neu ddiwallu anghenion a nodwyd gan yr asesiad fel arall, ac os felly, i ba raddau
3. asesu a allai materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny neu ddiwallu'r anghenion hynny fel arall, ac os felly, i ba raddau

7.4 Gall oedolyn sy'n goroesi VAWDASV sy'n destun NRPF gael llety a chymorth ariannol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn amodol ar fodloni'r amodau a amlinellir o dan adran 35 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, pan fydd awdurdod lleol wedi asesu bod angen gofal ar rywun, er enghraifft pecyn gofal neu le mewn lloches cam-drin domestig.

**Consesiwn Trais Domestig Amddifadedd (DDVC)**

7.5 Mae rhai mudwyr sydd wedi goroesi cam-drin domestig yn gymwys i wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU o dan y Rheol Trais Domestig (DV). Cyfeirir at hyn weithiau fel y cais SET DV. Gall unigolion y rhoddwyd eu Caniatâd Mynediad neu Aros diweddaraf iddynt fel priod, partner sifil neu bartner di-briod rhywun sy'n ddinesydd Prydeinig neu sydd â Chaniatâd Amhenodol i Aros (hyd yn oed os yw'r caniatâd mewnfudo hwnnw wedi dod i ben ers hynny), yr oedd eu perthynas yn gyfredol ar yr adeg y cyhoeddwyd y caniatâd mewnfudo ac mae eu perthynas wedi chwalu oherwydd cam-drin domestig gan bartner neu aelod o'r teulu, fod yn gymwys i wneud cais o dan y rheol DV.

**Y gwahaniaeth rhwng y Rheol Trais Domestig (DVR) a'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC)**

7.6 Mae'r Rheol Trais Domestig yn ddarpariaeth yn y Rheolau Mewnfudo sy'n caniatáu i'r rhai sy'n gymwys wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU fel dioddefwr cam-drin domestig. Mae cael caniatâd amhenodol i aros yn rhoi'r un hawl i fewnfudwyr i dai cymdeithasol, budd-daliadau lles, gwaith, rhentu, a gofal iechyd ag unrhyw ddinesydd Prydeinig.

7.7 Mae'r DDVC yn fath o ganiatâd dros dro i aros sy'n rhoi mynediad at arian cyhoeddus i oroeswyr amddifad ar fisâu priod/partner am 3 mis tra byddant yn gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros o dan y Rheol Trais Domestig (DVR). Mae hyn yn disodli caniatâd presennol y goroeswr i aros (fisa priod/partner), sy'n golygu na fyddai'r goroeswr yn gallu mynd yn ôl i'w fisa priod.

7.8 Byddai cais llwyddiannus ar gyfer Caniatâd Amhenodol i Aros yn golygu na fyddent bellach yn destun amodau NRPF. Os yw goroeswr yn amddifad ac angen cymorth ariannol, gallant wneud cais o dan y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC) ar gyfer Caniatâd Dros Dro i Aros am 3 mis tra eu bod yn gwneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros. Mae'r Caniatâd hwn i Aros yn disodli caniatâd blaenorol yr ymgeisydd fel priod/partner sifil. Yn ystod y cyfnod hwn o dri mis, bydd y goroeswr yn gallu cael mynediad at gyllid cyhoeddus.

7.9 Os bydd y goroeswr yn cyflwyno cais am ganiatâd i aros cyn diwedd y caniatâd dros dro i aros o dri mis, bydd y Caniatâd hwn i Aros yn cael ei ymestyn yn awtomatig o dan Adran 3c o Ddeddf Mewnfudo 1971 nes bod y Swyddfa Gartref yn gwneud penderfyniad ar y cais ILR.

7.10 Os ydych chi'n cefnogi rhywun rydych chi'n amau y gallai fod yn gymwys, cofiwch mai dim ond cyfreithwyr neu fargyfreithwyr mewnfudo a reoleiddir gan OISC sy'n cael cynghori unigolion ar eu hopsiynau mewnfudo, felly rhaid i chi beidio â dweud wrthyn nhw eu bod nhw'n gymwys. Yn lle hynny, cynigiwch helpu'r goroeswr i drefnu apwyntiad gyda chynghorydd mewnfudo neu gyfreithiwr rheoleiddiedig y gellir dod o hyd iddo trwy ddefnyddio gwasanaeth chwilio GOV.UK i gael cyngor ar eu hopsiynau mewnfudo

7.11 Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: Dim hawl i gael arian cyhoeddus (NRPF): canllawiau [HTML] | LLYW.CYMRU ac mae gan Dîm rhanbarthol VAWDASV ymarferwyr NRPF hyfforddedig ledled y rhanbarth. Os hoffech ddarganfod pwy yw'ch ymarferydd lleol, cysylltwch â'r Tîm VAWDASV ar vawdasv.gwent@newport.gov.uk

## 8. Cadw Cofnodion a Chofnodi Gwybodaeth

8.1 Mae'n bwysig bod Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cael cymaint o wybodaeth â phosib pan fydd oedolyn, plentyn neu berson ifanc yn cael ei atgyfeirio cyntaf, neu'n datgelu am y tro cyntaf, gan oherwydd na fydd cyfle

arall. Dylid cymryd cofnod o fanylion personol uniongyrchol yr oedolyn, plentyn neu berson ifanc a manylion y teulu, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am yr angen am gyfieithydd ar y pryd.

8.2 Mae'n hanfodol eich bod yn gwneud cofnod llawn o:

- Yr hyn a ddywedir;
- Gan bwy;
- Yr hyn rydych chi wedi'i wneud;
- Y camau gweithredu yr ydych wedi'u cymryd;
- Pwy yr ydych wedi cyfeirio'r oedolyn, plentyn, neu berson ifanc ato; a
- Beth maen nhw wedi'i ddweud wrthych am yr atgyfeiriad ac unrhyw gamau dilynol.

8.3 Rhaid i bob achos ystyried yn ofalus sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hamddiffyn o fewn y sefydliad ar systemau mewnol a dylid ei marcio'n unol â hynny. Ym mhob achos, dylai manylion yr achos fod yn gyfyngedig a dim ond y rhai sy'n gweithio ar yr achos a rheolwyr perthnasol ddylai fod â mynediad.

8.4 Mae angen blaenoriaethu diogelwch yr holl wybodaeth, a dylid ystyried sut y gall eich asiantaeth reoli'r wybodaeth hon yn sensitif. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o geisiadau am wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw unigolion lle mae amheuaeth o HBA a chyfeirio at bolisi eu sefydliad ar rannu gwybodaeth.

## 9. Cyfeirio a Chymorth i Ddioddefwyr

- **Mewn argyfwng: Ffoniwch 999 cyn gynted â phosib. Cofiwch y system Ateb Tawel – os na fydd rhywun yn gallu siarad pan fydd y gweithredwr yn ateb, pwyswch 55 i wneud y triniwr galwadau'n ymwybodol pan fyddant mewn perygl a ni allant siarad.**

  Ateb Tawel | Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)

### Gwybodaeth/Adnoddau i Ymarferwyr

- Adnoddau Defnyddiol Modiwl e-ddysgu VAWDASV Llywodraeth Cymru

  Cwrs: Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

- NSPCC 'Let Children Know You're Listening

  Let children know you are listening | NSPCC Learning

- **Cam-drin ar Sail 'Anrhydedd' (HBA - Diogelu Gwent**
  **Cymorth i Ddefnyddwyr Gwasanaeth**

- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Ferched Cymru :

  Cymorth Am Ddim 24/7 Ffôn: 0808 80 10 800 (cyfrinachol, yn cefnogi Cymraeg, Saesneg, amlieithog)
  E-bost: info@livefearfreehelpline.wales
  Tecst: 07458 1415
  Llinell Gymorth Byw Heb Ofn : Cymorth i Ferched Cymru

- Bawso: Mae BAWSO yn darparu llinell gymorth 24/7 i fenywod Duon a lleiafrifol yng Nghymru y mae cam-drin domestig, arferion niweidiol, masnachu pobl, a chaethwasiaeth fodern yn effeithio arnynt. Maent yn cynnig cymorth sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac yn benodol i'r iaith, gan gynnwys gwasanaethau lloches, eiriolaeth, ac allgymorth ledled Cymru.

  Gwybodaeth gyswllt: Llinell gymorth 24/7 (am ddim, cyfrinachol): 0800 731 8147
  Ffôn y swyddfa (Llun–Gwe): 029 20 644 633
  E-bost: info@bawso.org.uk
  E-bost atgyfeirio: referrals@bawso.org.uk

Gwefan: http://www.bawso.org.uk/

- Cymorth i Fenywod Cyfannol: (Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd):

  Hafan - Cymorth cam-drin a thrais rhywiol - Cymorth i Fenywod Cyfannol

- Cymorth i Ferched Cymru: Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i roi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod. Maent yn cydlynu rhwydwaith o wasanaethau arbenigol, gan ddarparu gwasanaethau achub bywyd megis llety lloches, cwnsela, eiriolaeth, hyfforddiant, ac ymgyrchu cyhoeddus.

  Hafan : Cymorth i Ferched Cymru

- Galop: Llinell Gymorth LHDTC+ – Ar agor i unrhyw un yn y gymuned LHDTC+, yn ogystal â ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol a allai fod yn pryderu am berson LHDTC+ sy'n wynebu cam-drin.

Ff: 0800 999 5428.
E: help@galop.org.uk
https://www.galop.org.uk/

- Karma Nirvana: Llinell gymorth i unrhyw un sy'n profi, yn gweithio gyda, neu'n poeni am rywun sy'n profi cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod.

  Ff: 0800 5999 247 Llun-Gwe 9am-5pm
  Karma Nirvana

- New Pathways: Y darparwr cymorth trais rhywiol mwyaf yng Nghymru, gyda 30 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth therapiwtig arbenigol i oedolion a phlant y mae trawma trais, ymosodiad rhywiol neu gam-drin rhywiol yn effeithio arnynt.
  New Pathways Gwasanaethau cymorth argyfwng trais a cham-drin rhywiol

- Men's Advice Line: – Gwasanaeth llinell gymorth, e-bost a sgwrs we cyfrinachol i bobl sy'n uniaethu fel dynion sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig, a'r rhai sy'n eu cefnogi.

  Ff: 0808 801 0327 (Llun-Gwe 10am -8pm).
  Sgwrs we: mensadviceline.org.uk (Mer 10-11.30am a 2.30-4pm)
  Llinell Gymorth Cam-drin Domestig i Ddynion | Men's Advice Line UK

- Suzy Lamplugh Trust: Llinell Gymorth Stelcio Genedlaethol sy'n darparu cymorth ac eiriolaeth i oroeswyr, teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol sy'n pryderu am rywun sy'n profi stelcio yn y DU.

  Ff: 0808 802 0300 9.30am- 8pm Llun a Mer a 9.30am – 4pm Maw, Iau a Gwe.
  Suzy Lamplugh Trust

- Llinell Gymorth Respect: Yn darparu cymorth a chyngor i gyflawnwyr DVA sydd eisiau newid.

  Ff: 0808 802 4040
  Elusen i Helpu Cyflawnwyr Cam-drin Domestig | Respect Phoneline UK

- SignHealth: Gwasanaeth arbenigol i oedolion a phlant Byddar sydd wedi profi cam-drin. I wneud atgyfeiriad neu ofyn am gyngor:

  Ff: 02039472600 neu Neges destun: 07970350366

E-bost: da@signhealth.org.uk
Yr elusen iechyd byddar SignHealth

- Sikh Women's Aid:
  0333 090 1220
  Elusen Cam-drin Domestig Sikh Women's Aid

- Llinell Gymorth Muslim Women's Network
  0800 999 5786
  Muslim Women Network

- Llinell gymorth Jewish Women's Aid
  0808 801 0500
  Cysylltwch â ni - Jewish Women's Aid

- The Traveller Movement
  0754 1637 795
  Hafan | The Traveller Movement

- Travelling Ahead
  Travelling Ahead: Wales Gypsy, Roma and Traveller Advice and Advocacy Service « TGP Cymru

- Latin American Women's Aid: 02072750321
  Latin American Women's Aid (LAWA): cymorth cam-drin domestig

- Uned Priodasau dan Orfod
  020 7008 0151
  e-bost: fmu@fco.gov.uk
  Priodasau dan orfod - GOV.UK

- FLOWS – Finding Legal options for Women's Survivors:
  Ff: 0203 745 7707
  FLOWS | Finding Legal Options for Women Survivors

- Mankind Initiative: Helpu dynion i ddianc rhag cam-drin domestig.
  Ff: 01823 334 244
  ManKind Initiative - Cefnogi Dioddefwyr Gwrywaidd Cam-drin Domestig

- Llinell Gymorth Trais Rhywiol Women & Girls Network:
  Ff: 0808 801 0770
  Llinell Gymorth Trais Rhywiol - Women and Girls Network

- The Female Genital Mutilation Helpline (NSPCC):
  Ff: 0800 028 3550
  Female Genital Mutilation - Prevent & Protect | NSPCC

**Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol Gwent:**

- Blaenau Gwent
  Ffôn: 01495 315700
  E-bost: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk
- Caerffili
  Ffôn: 0808 100 2500
  E-bost: GCChOedolion@caerffili.gov.uk
- Torfaen
  Ffôn: 01495 762200
  E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk
- Casnewydd
  Ffôn: 01633 656656
  E-bost: firstcontact.adults@newport.gov.uk
- Sir Fynwy
  Ffôn: 01873 735492
  E-bost: MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

**Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol Gwent:**

- Blaenau Gwent
  Ffôn: 01495 315700
  E-bost: DutyTeam@blaenau-gwent.gov.uk
- Caerffili
  Ffôn: 0808 100 1727
  E-bost: CyswlltAcAtgyfeirio@caerffili.gov.uk
- Sir Fynwy
  Ffôn: 01291 635 669
  E-bost: ChildDuty@monmouthshire.gov.uk
- Casnewydd
  Ffôn: 01633 656656
  E-bost: children.duty@newport.gov.uk

- Torfaen
  Ffôn: 01495 762200
  E-bost: CS.Contact@Torfaen.Gov.UK

**Ar ôl 5pm ac ar benwythnosau a gwyliau'r banc cysylltwch â Thîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru ar 0800 328 4432.**

## Atodiad Un: Diffiniadau

### Cam-drin ar Sail Anrhydedd (HBA)

Mae Cam-drin ar Sail Anrhydedd yn cyfeirio at ddigwyddiad neu drosedd sy'n cynnwys trais, bygythiadau o drais, dychryn, gorfodaeth, neu gam-drin (gan gynnwys cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) sydd wedi'i gyflawni, neu a allai fod wedi'i gyflawni, i amddiffyn anrhydedd canfyddedig unigolyn, teulu, a/neu gymuned oherwydd honiad neu ganfyddiad o dorri ymddygiad disgwyliedig.

Nid oes un drosedd o Gam-drin ar Sail Anrhydedd. Yn lle hynny, mae'n cwmpasu ystod o faterion troseddol a diogelu, gan gynnwys cam-drin domestig, cam-drin plant, troseddau rhywiol, priodas dan orfod, stelcio, aflonyddu ac, mewn achosion eithafol, dynladdiad. Cydnabyddir HBA yng Nghymru fel math difrifol o gam-drin domestig a phryder diogelu a gall gynnwys sawl troseddwr, gan gynnwys aelodau'r teulu agos ac estynedig a rhwydweithiau cymuned ehangach.

Ni ddylid byth defnyddio'r cysyniad o 'anrhydedd' i gyfiawnhau cam-drin. Nid oes unrhyw anrhydedd mewn trais neu orfodaeth.

---

### Arferion Niweidiol

Mae arferion niweidiol yn ffurfiau o gam-drin sydd yn aml wedi'u gwreiddio mewn traddodiad, arfer, diwylliant, neu systemau cred, ond sydd yn anghyfreithlon, yn gamdriniol, ac yn gyfystyr â thoriadau difrifol o hawliau dynol. Fe'u defnyddir i reoli, cosbi, neu gyfyngu ar unigolyn y canfyddir eu bod wedi torri normau teuluol, cymdeithasol neu gymunedol.

Gall arferion niweidiol effeithio ar oedolion a phlant fel ei gilydd ac maent yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, er y gall dynion a bechgyn fod yn ddioddefwyr hefyd. Nid ydynt yn benodol i unrhyw un grefydd neu ddiwylliant ac maent yn digwydd ar draws cymunedau yn fyd-eang.

Yng Nghymru a'r DU ehangach, cydnabyddir arferion niweidiol fel mathau o gam-drin domestig, cam-drin plant a phryderon diogelu, ac yn aml maent yn gorgyffwrdd â Cham-drin ar Sail Anrhydedd. Rhaid i ymatebion flaenoriaethu diogelu ac ymyriadau cyfiawnder troseddol yn hytrach na chyfryngu neu ddatrysiad teuluol.-

Mae enghreifftiau o arferion niweidiol yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:

- Priodas dan orfod
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd (FGM)
- Trais, cam-drin neu fygythiadau sy'n cael eu cyfiawnhau gan anrhydedd teuluol neu gymunedol
- Cyfyngiadau gorfodol ar addysg, perthnasau, symudiad, cyflogaeth neu annibyniaeth
- Cipiad neu gael eu cymryd dramor o dan esgusodion ffug
- Ymosodiad difrifol neu ladd yn enw anrhydedd

---

**Priodas dan orfod**

Mae priodas dan orfod yn digwydd lle mae un neu'r ddau barti yn cael eu pwysom eu gorfodi, neu eu bygwth i briodi heb eu cysyniad rhydd a gwybodus. Gallai'r pwysau hyn fod yn gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol, yn ariannol, neu'n rhywiol, neu gynnwys bygythiadau, twyll neu gamddefnyddio pŵer.

Mae priodas dan orfod yn drosedd o dan gyfraith y DU ac mae hefyd yn cael ei chydnabod fel math o:

- Gam-drin domestig
- Cam-drin plant (lle mae'r dioddefwr dan 18 oed)
- Cam-drin ar Sail Anrhydedd
- Pryder diogelu i oedolion a phlant fel ei gilydd

Mae priodas dan orfod yn wahanol i briodas wedi'i threfnu, lle mae'r ddau barti yn cydsynio'n rhydd ac mae ganddyn nhw'r hawl i wrthod. Rhaid i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau difrifol ac uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phriodas dan orfod, yn enwedig lle mae cynlluniau i deithio dramor.

---

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd (FGM)**

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd (FGM) yn cyfeirio at bob gweithred sy'n cynnwys cael gwared â rhan neu'r cyfan o'r organau cenhedlu benywaidd neu anaf arall i'r organau cenhedlu benywaidd, am resymau anfeddygol.-

Mae FGM yn drosedd ddifrifol yn y DU ac yn fath o gam-drin plant a thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'n fath eithafol o drais ar sail rhywedd ac yn groes i hawliau dynol.-

Gall FGM gael ei gynllunio dros amser, ei gynnal yn y DU neu dramor, a gall gynnwys aelodau o'r teulu a'r gymuned estynedig. Mae gan ymarferwyr ddyletswydd statudol i weithredu lle gwyddys bod merch neu fenyw wedi bod trwy, neu mewn perygl o fynd trwy, FGM.

---

**Rheolaeth drwy Orfodaeth**

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn batrwm o ymddygiad a ddefnyddir gan droseddwr i ddominyddu, dylanwadu, dychryn neu ynysu person arall ac i'w hamddifadu o annibyniaeth a rhyddid.

Gallai gynnwys:

- Gwyliadwriaeth a monitro
- Ynysu oddi wrth ffrindiau, teulu neu wasanaethau
- Cam-drin ariannol
- Bygythiadau, sarhad neu ddychryn
- Rheolaeth dros addysg, cyflogaeth, gofal iechyd neu berthnasau
- Cyfyngiadau ar symud, cyfathrebu neu ddewis personol

Cydnabyddir rheolaeth drwy orfodaeth fel trosedd ac mae'n nodwedd graidd o gam-drin domestig. Yng nghyd-destun Cam-drin ar Sail Anrhydedd ac arferion niweidiol, mae rheolaeth drwy orfodaeth yn aml yn cael ei chyflawni gan sawl aelod o'r teulu a gellir ceisio ei chyfiawnhau gan ddefnyddio naratifau diwylliannol, moesol, neu ar sail anrhydedd.